

# ‘Byddwch yn arwr codi arian’

## Pecyn Codi Arian Ysgolion

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FR FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Rhif elusen: 250523



# Amdanom ni

## Pwy ydym ni

St John Ambulance Cymru yw prif elusen cymorth cyntaf Cymru, ac rydym wedi bod yn cefnogi cymunedau Cymru ers dros 100 mlynedd.

Gyda chefnogaeth 1,800 o wirfoddolwyr, rydym yn darparu gwasanaethau rheng flaen yng nghanol y cymunedau hynny a chymorth hanfodol i'n gwasanaethau brys pan fyddan nhw ein hangen fwyaf, gan ofalu am dros 10,000 o bobl bob blwyddyn.

## Addysgu eraill i achub bywydau

Rydym yn credu y dylai pawb fod â'r sgiliau a allai wneud gwahaniaeth mewn argyfwng. Dyna pam rydym yn darparu hyfforddiant cymorth cyntaf am ddim mewn cymunedau ac ysgolion lleol.

## Stori Rhian



**Nid oes neb yn deall pwysigrwydd cymorth cyntaf yn fwy na Rhian o Fedlinog.**

Pan ddechreuodd ei mab, Carwyn, dagu yn ystod pryd bwyd nos y teulu, roedd ei merch, Lowri, yn gyflym i weithredu i achub bywyd ei brawd.

Ar ôl dysgu cymorth cyntaf fel rhan o'n rhaglen 'Badger' i bobl ifanc dim ond misoedd yn gynt, curodd gefn Carwyn, gan symud y rhwystr a galluogi iddo anadlu yn arferol eto.

Dywed Rhian fod y sgiliau a ddatblygodd Lowri gyda ni yn hanfodol i roi'r grym iddi weithredu:

"Roedd hi mor bwysig i mi fod fy mhlant yn dysgu cymorth cyntaf a nawr rwy'n mor falch eu bod nhw wedi gwneud hynny. Alla i ddim hyd yn oed dychmygu beth fyddai wedi digwydd pe na bai Lowri wedi gweithredu pan wnaeth hi.

**"Hi yw ein harwr bach ni."**



# Sut gallwch chi ein helpu drwy godi arian

Drwy gefnogi ein gwaith hanfodol rydych chi'n gallu ein helpu i wneud yr hyn yr ydym yn ei wneud orau – achub bywydau ac addysgu eraill i'w wneud hefyd.

Rydym yn credu gyda'n gilydd, gyda'ch cymorth chi, y gallwn ni fod y gwahaniaeth rhwng colli bywyd ac achub bywyd.


## £240

**Gallai £240 ein galluogi i ddarparu hyfforddiant CPR a diffibriliwr i ddosbarth ysgol neu grŵp cymunedol**



## £60

**Byddai £60 yn ariannu'r gost o gynnal cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf 2 ½ awr mewn ysgol**



## £600

**Gallai £600 ariannu ambiwlans i deithio 2,000 o filltiroedd i gyrraedd pobl y mae angen ein cymorth ni arnyn nhw**





# Syniadau codi arian

Mae cymaint o ffyrdd hwyliog y gallwch chi ein cefnogi ni, fel cynnal diwrnod gwisg ysgol neu wisgo fel eich hoff gymeriad ffuglennol.

Gallech hyd yn oed thema eich digwyddiad o amgylch y sgiliau cymorth cyntaf rydych chi wedi'u dysgu.

Rydym hefyd wedi cynnwys rhai syniadau codi arian gwych yn ein canllaw codi arian ar y dudalen nesaf i roi ychydig o ysbrydoliaeth i chi, neu mae croeso i chi feddwl am eich codwr arian gwych eich hun.

## Er enghraifft

**Mae'r galon gyfartalog yn curo tua 70-80 o weithiau bob munud, felly gallwch chi gynnal taith gerdded noddedig a gwneud 70-80 lap o gwmpas eich ysgol.**



# Syniadau codi arian

St John Ambulance Cymru yw elusen cymorth cyntaf flaenllaw Cymru, ac mae'n darparu gwasanaethau cymorth cyntaf rheng flaen yng nghanol cymunedau Cymru a hyfforddiant cymorth cyntaf i achubwyr bywyd heddiw ac yfory.


Drwy ddewis ein cefnogi, gallech helpu i ysbrydoli miloedd o bobl bob blwyddyn i ennill yr wybodaeth a'r hyder i achub bywyd.

Rydym wedi casglu rhai syniadau codi arian at ei gilydd i helpu i'ch rhoi ar ben ffordd i godi'ch targed ar gyfer St John Ambulance Cymru.



## Parti celf

Byddwch yn greadigol gyda pharti celf - gallech chi greu rhywbeth a chynnal ffair grefftau.



## Clwb llyfrau

Cynhaliwch glwb llyfrau lle mae pobl yn cyfrannu arian er mwyn dod i drafod llyfr, neu gwerthwch eich hen lyfrau i roi hwb i'ch ymgyrch codi arian.



## Gwerthu teisennau

Mae pawb yn dwlu ar werthiant teisennau, p'un ai i ffrindiau a theulu, yn yr ysgol mae hon yn ffordd wych o godi arian.



## Diwrnod gwisgo'n anffurfiol

Cynhaliwch ddiwrnod gwisgo'n anffurfiol ar gyfer elusen. Mae pawb yn cyfrannu £1 ac yn gallu dod yn eu dillad anffurfiol am y diwrnod hwnnw.



## Her fwyta


Defnyddiwch I'm a Celebrity yn ysbrydoliaeth i gynnal heriau bwyta, gallech chi ofyn i bobl dalu i gystadlu neu roi "dirwy" am beidio â chwblhau'r dasg.

## O bump i bum deg

Dechreuwch gyda £5 a gwelwch sut y gallwch chi wneud iddo dyfu. Her fenter fach yw hon lle gallwch chi fuddsoddi eich £5 fel y mynnwch chi a gweld a oes modd iddo droi yn £50.



## Tyfu




Tyfwch blanhigion o hadau a'u gwerthu i aelodau'r teulu neu yn eich ffair ysgol neu ddiwrnod agored.

## Cynnal cyngerdd ysgol




Cynhaliwch glwb llyfrau lle mae pobl yn cyfrannu arian er mwyn dod i drafod llyfr, neu gwerthwch eich hen lyfrau i roi hwb i'ch ymgyrch codi arian.

## Gemau Dan Do



Cynhaliwch ddiwrnod gemau neu gemau gyda'ch dosbarth.

## Ffair sborion



Dewch o hyd i ffair sborion lleol a gosodwch stondin gyda phethau nad ydych chi eu heisiau mwyach. Gofynnwch am roddion o eitemau gan eraill i helpu i roi hwb i'r hyn yr ydych chi'n ei godi.

## Cadw'n heini.

Cynhaliwch ddosbarth ymarfer corff noddedig yn ystod eich egwyl fore.

## Diwrnod tei llachar



Gwisgwch dei llachar neu ddigon i godi cywilydd arnoch i'r ysgol am y diwrnod a gofynnwch am nawdd. Os nad ydych chi'n gwisgo tei fe allech chi roi cynnig ar wisgo sanau od.

## Cerddoriaeth

Crëwch restr chwarae Spotify ar gyfer eich ysgol a rhoi £1 i ychwanegu hoff gân at y rhestr.

## Rhowch enw arno



P'un a yw'n degan tedi, ci anwesol neu ddoli, gallwch greu grid o enwau (gyda'r ateb ar un sgwâr). Gofynnwch i bobl roi arian i ddewis enw a'r person sy'n dyfalu'n gywir sy'n ennill y tegan.

## Dillad isaf y tu allan



Gwisgwch eich dillad isaf ar y tu allan am y diwrnod i godi arian nawdd. Byddwch yn archarwyr yn ein llygaid ni.

## Ras grempogau

Cynhaliwch ras grempogau noddedig.

## Amser cwis





Cynhaliwch gwis ysgol i godi arian yn ystod eich egwyl ginio.

## Raffl




Mae cynnal raffl yn ffordd gyflym a hawdd o godi arian. Cofiwch ddilyn canllawiau'r Comisiwn Gamblo.

## Cael eich noddi

Ydych chi'n siarad fel pwll y môr neu a ydych chi'n bwyta gormod o siocled? Gallwch chi gynnal digwyddiad noddedig i godi arian – er enghraifft, gallai fod yn ddistawrwydd noddedig, neu am faint o amser y byddwch chi'n fodlon rhoi'r gorau i siocled.

## Swîp Amser




Os ydych chi'n cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon neu noddedig, cynhaliwch swîp am ba mor hir mae pobl yn meddwl y bydd yr her yn ei gymryd i'w chwblhau, neu ar gyfer digwyddiad distawrwydd noddedig, pa mor hir maen nhw'n credu y bydd hi tan i chi roi'r gorau iddi.

## Diwrnod gwisg ffansi

Cynhaliwch ddiwrnod gwisgo'n ffansi yn yr ysgol lle mae gwahoddiad i bobl wisgo iwnifform neu wisg ffansi yn gyfnewid am rodd. Cadwch thema St John Ambulance Cymru drwy roi thema fel gwisgoedd gwasanaeth golau glas i'r wisg ffansi.

## Gwledd lysieuol




Coginiwch ddanteithion llysieuol yn yr ysgol a'u gwerthu i aelodau'r teulu neu ffrindiau.

## Her gerdded

Gwnewch daith gerdded filltir noddedig o amgylch safle'r ysgol.

## Mae X yn dynodi'r lle



Gwnewch fap trysor a'i rannu'n sgwariau. Gofynnwch i bobl i ddewis sgwâr a chyfrannu at St John Ambulance Cymru. Os ydyn nhw'n dewis y sgwâr lle rydych chi wedi cuddio'r trysor maen nhw'n ennill gwobr.

## Diwrnod Gwnaf

Gofynnwch am roddion yn gyfnewid am helpu pobl. Gofynnwch iddyn nhw beth sydd ei angen arnyn nhw (o fewn rheswm) ac yna dywedwch gwnaf. Ond gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n cytuno i unrhyw beth nad ydych chi eisiau ei wneud.

## Zumbathon



Cynhaliwch zumbathon yn yr ysgol i godi arian nawdd. Nid yw Zumba'n apelio atoch chi? Gallech chi roi cynnig ar aerobics, dawns, ioga neu weithgaredd chwaraeon arall.

## Ysbrydoliaeth



**P'un a ydych chi'n codi arian ar eich pen eich hun, neu fel rhan o dîm rydym yn gobeithio bod yr amrywiaeth o syniadau wedi ysbrydoli'ch ymgyrch codi arian.**

Mae gan rai gweithgareddau codi arian, gan gynnwys rafflau a swîp, reolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn neu gall fod angen trwyddedau arnynt. Mae ein tîm codi arian wrth law bob amser i roi cymorth a chyngor. Os oes angen unrhyw beth arnoch neu os oes gennych chi syniad yr hoffech ei drafod, cysylltwch â ni.



# Rhestr wirio codi arian

1 **Dewis dyddiad** – Pennwch ddyddiad ar gyfer eich gweithgaredd neu ddigwyddiad.

2 **Gosod targed** – Gall targed helpu i'ch cymell chi ac annog pobl i roi.

3 **Cysylltu â ni** – Gadewch wybod i ni eich bod yn codi arian ar ein cyfer; hoffwn ni wybod beth rydych chi'n ei gynllunio. Gallwn ni ddarparu'r holl gyngor ac adnoddau sydd eu hangen i'ch helpu i godi arian yn llwyddiannus.

4 **Sefydlu tudalen rhoi** – Mae tudalen codi arian ar-lein yn ffordd wych o wylio eich cynnydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch cefnogwyr.

5 **Hysbysebu** – Gadewch i bobl wybod am eich menter codi arian drwy hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyr yr ysgol neu'r wasg leol.

6 **Codi arian** – Cynhaliwch eich menter codi arian. Cofiwch gymryd digon o luniau fel y gallwn ni rannu eich stori.

7 **Anfon eich rhoddion i ni** – Ar ôl i chi gwblhau eich gweithgaredd neu ddigwyddiad codi arian, gallwch chi anfon eich rhoddion drwy dudalen rhoi ar-lein, ein gwefan, trosglwyddiad banc neu siec.

8 **Dathlu** – Dathlwch eich llwyddiant arbennig – rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau ledled Cymru.




# Codi arian ar-lein

Mae sefydlu tudalen codi arian ar-lein yn hawdd iawn. Mae JustGiving neu GivePenny yn eich galluogi i greu eich tudalen eich hun lle gall pobl roi a gadael negeseuon o gefnogaeth i chi.

Mae'r arian maen nhw'n ei roi yn cael ei anfon yn syth at St John Ambulance Cymru hefyd. Mae'n syml ac yn ddidrafferth.

**Y cyfan y mae angen i chi ei wneud i ddechrau yw mynd i:**


Os oes angen cymorth arnoch i sefydlu eich tudalen, anfonwch e-bost atom yn: **fundraising@sjacymru.org.uk**

**justgiving.com/sjcw**

**givepenny.com/charity/stjohnambulancecymru**

# Baneri

1. Argraffwch gymaint o gopïau ag sydd eu hangen arnoch.
2. Torrwch siapau'r baneri gan ddefnyddio siswrn diogelwch.
3. Gwnewch y tyllau lle maen nhw wedi'u marcio gyda thyllwr neu siswrn yn ofalus.
4. Rhowch linyn neu ruban drwy'r tyllau fel yn y llun...




**Awgrym:** I atal y baneri rhag llithro defnyddiwch dâp gludiog ar y cefn.

**Awgrym:** Os ydych chi'n defnyddio'r baneri yn yr awyr agored, efallai y gallech chi eu hargraffu ar bapur plastig, neu'u lamineiddio i'w gwarchod rhag y glaw.

# Dangoswch eich cefnogaeth i elusen cymorth cyntaf flaenllaw Cymru!

Bydd eich rhoddion yn ein galluogi i barhau â'n gwaith achub bywydau hanfodol yng nghalon cymunedau Cymru, ac yn ein helpu i achub mwy o fywydau. **Dysgwch fwy: www.sjacymru.org.uk/fundraise**

St John Ambulance Cymru

**Enw:** ..................................................

**Cyfeiriad:** ..................................................

..................................................

**Noddwch fi i:** ..................................................

| Enw | E-bost | Cyfeiriad cartref | Cod Post | Rhodd Cymorth? | Swm | Dyddiad | A gawn ni gysylltu â chi? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr John Wales | johnwales@enghraifft.com | 123 Stryd John, Fy nhref | AB12 3CD | ✓ | £20.00 | 20/9/2022 | ☐ E-bost ☐ Post |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

giftaid it
**Noddwch fi i**

## Gwnewch bob £1 yr ydych chi'n ei roi gwerth 25c yn fwy!

Drwy dicio'r blwch 'Rhodd Cymorth', rwy'n cadarnhau fy mod eisiau i St John Ambulance Cymru hawlio treth yn ôl ar fy rhodd uchod ac unrhyw roddion rwy'n eu gwneud yn y dyfodol neu wedi'u gwneud yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Rwy'n drethdalwr Enillion Incwm neu Enillion Cyfalaf y DU a deallaf os wyf i'n talu llai o Dreth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf na swm y Rhodd Cymorth a hawliwyd ar fy holl roddion yn y dreth honno fy nghyfrifoldeb i yw talu unrhyw wahaniaeth. **Mae'n rhaid i chi roi eich enw llawn, cyfeiriad cartref, cod post a thicio'r blwch 'Rhodd Cymorth' i ni hawlio treth yn ôl ar eich cyfraniad.**


Ticiwch yr opsiynau uchod os ydych yn hapus i dderbyn gwybodaeth am weithgareddau, ceisiadau codi arian a newyddion St John Ambulance Cymru. Gallwch ddad-danysgrifio ar unrhyw adeg drwy ein ffonio ar: 029 2044 9626.

**Cyfanswm a godwyd** **£**

Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi i: Tîm Codi Arian, St John Ambulance Cymru, Tŷ'r Priordy, Clôs Beignon, Caerdydd, CF24 5PB

Rhif elusen gofrestredig: 250523

# Diolch am ddewis cefnogi St John Ambulance Cymru



## Sut i dalu eich arian a godwyd

Gallwch dalu eich arian i St John Ambulance Cymru gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau isod. Pa ffordd bynnag yr ydych chi'n penderfynu anfon eich arian, gwnewch yn siŵr eich bod bob amser yn cynnwys cyfeirnod fel y gallwn gysylltu eich ymdrechion codi arian â chi!

### Ar-lein

Ewch i **www.sjacymru.org.uk/fundraise** i dalu'r arian yr ydych wedi'i gasglu neu'ch arian nawdd drwy gerdyn credyd neu ddebyd.
Gallwch hefyd sefydlu tudalen codi arian ar-lein trwy JustGiving drwy fynd i: **www.justgiving.com/sjcw** a dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

### Trosglwyddiad Banc

Gallwch drosglwyddo arian yn uniongyrchol i ni drwy ddefnyddio manylion y cyfrif isod:

Enw'r Cyfrif: St John Ambulance Cymru
Cod Didoli: 20-18-15
Rhif y cyfrif: 13853659

Os ydych yn talu fel hyn, rhowch wybod i ni pan fyddwch chi wedi gwneud y taliad a sicrhewch eich bod yn cynnwys cyfeirnod. **Cofiwch gadw copi o'ch derbynneb ar gyfer eich cofnod eich hun.**

### Ffôn

Ffoniwch ein llinell roddion ar 029 2044 9626.

### Post

Anfonwch sieciau yn daladwy i 'St John Ambulance Cymru' i :
St John Ambulance Cymru, Tŷ Priordy, Clôs Beignon, Caerdydd, CF24 5PB

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FR FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'n tîm codi arian ar 029 2044 9626 neu anfonwch e-bost i: fundraising@sjacymru.org.uk

Rhif elusen gofrestredig: 250523






# Sut i anfon eich rhoddion atom

Gallwch anfon eich rhoddion atom drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau isod.

Pa bynnag ddull y dewiswch, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys cyfeirnod bob tro ac yn rhoi gwybod i ni.

**Gall ein tîm cyfeillgar helpu gyda hyn. – ffoniwch nhw ar 029 2044 9626 neu e-bostiwch fundraising@sjacymru.org.uk.**

## Ar-lein

Ewch i **www.sjacymru.org.uk/donate** i roi drwy gerdyn credyd neu ddebyd.

Neu, os ydych chi wedi sefydlu tudalen rhoi ar-lein drwy Just Giving neu GivePenny, bydd yr arian yn cael ei anfon atom yn awtomatig. Eisteddwch yn ôl ac ymlaciwch.

## Ffôn

Ffoniwch ein llinell rhoddion ar **029 2044 9626**.

## Trosglwyddiad Banc

Gallwch drosglwyddo arian i ni'n uniongyrchol gan ddefnyddio manylion y cyfrif isod:

**Enw'r Cyfrif: St John Ambulance Cymru**
**Cod Didoli: 20-18-15**
**Rhif y Cyfrif: 13853659**


Os ydych chi'n talu fel hyn, cofiwch adael gwybod i ni pan fyddwch chi wedi talu a sicrhewch eich bod yn cynnwys cyfeirnod.

Cofiwch gadw copi o'ch derbynneb ar gyfer eich cofnodion eich hun.

## Siec

Gwnewch sieciau'n daladwy i '
**St John Ambulance Cymru'** a'u hanfon i:

Tîm codi arian, **St John Ambulance Cymru, Priory House, Beignon Close, Caerdydd CF24 5PB**



**Sganiwch yma i wneud rhodd**

**fundraising@sjacymru.org.uk**
**029 2044 9626**



@SJACymru

## Defnyddiwch yr hashnod #ArwrCodiArian

**Diolch i chi am gefnogi St John Ambulance Cymru.**